Cofnodion Bwrdd Rheilffordd TrC Cyf

26/06/2026

09:00 – 14:00

Lleoliad: Llys Cadwyn

Yn bresennol

James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudhry Van der Velde, Julian Edwards, Peter Strachan

Hefyd yn bresennol

Sam Hadley, Lorenzo Visentin, Stephen Morgan (Cofnodion)

1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan fod y cyfarfod wedi'i agor.

1c. Datgan Buddiant

2. Sylw i ddiogelwch

Bu'r Bwrdd yn trafod diogelwch croesfannau rheilffordd yn dilyn digwyddiadau diweddar yn y diwydiant gan fyfyrio ar effeithiau cymdeithasol, gweithredol a diogelwch ehangach peryglon croesfannau rheilffordd. Bu aelodau'n ystyried y cydbwysedd rhwng buddsoddiad mewn seilwaith, ymddygiad y cyhoedd, diogelwch rheilffyrdd, hygyrchedd, ac effeithiau economaidd ar gymunedau. Tynnodd y drafodaeth sylw at bwysigrwydd mabwysiadu dull system gyfan i reoli risgiau, gwella dealltwriaeth o amodau lleol, cryfhau cydweithrediad â phartneriaid seilwaith, a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol yn rhoi ystyriaeth briodol i fuddiannau'r rheilffyrdd a chymdeithas yn gyffredinol.

3. Sylw i gwsmeriaid

Bu'r Bwrdd yn trafod cyflwyno ail-luniad amserlen Arfordir Gogledd Cymru a nodwyd perfformiad positif, mwy o gapasiti ac adborth calonogol gan gwsmeriaid, yn enwedig o ran cyfleoedd ar gyfer siwrneiau newydd a gwasanaeth Lerpwl-Llandudno. Croesawodd yr aelodau'r agwedd gydweithredol a ddangoswyd rhwng timau, cydnabu'r ymateb gweithredol yn ystod y cyfnodau o wres eithafol yn ddiweddar, a thrafodwyd goblygiadau masnachol gweithredwyr eraill yn newid amserlenni ar refeniw TrC. Mynegwyd pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymosodiadau ar gydweithwyr ar y rheilffyrdd yn ystod cyfnodau o alw uchel a thywydd poeth. **Cam Gweithredu: Parhau i erlyn yn achos ymosodiadau diweddar ar gydweithwyr ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar unrhyw gynnydd.**

4. Cofnodion a Chamau Gweithredu

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod diwethaf yn amodol ar newidiadau.

5. Adolygiad ariannol

Cafodd y Bwrdd y diweddariad ariannol, a nodwyd fod gweithredu'r systemau adrodd newydd yn parhau i ddangos cynnydd, gyda rhagor o welliannau i'w disgwyl yn ystod cyfnodau adrodd y dyfodol. [redacted]

7. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau

Bu'r Bwrdd yn trafod perfformiad gweithredol y rhwydwaith rheilffyrdd a nodwyd gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn o ran dangosyddion perfformiad allweddol er gwaethaf yr heriau a oedd yn gysylltiedig â'r tywydd yn ystod y cyfnod adrodd. Bu aelodau'n trafod effaith y gwres, methiannau yn y seilwaith a materion yn ymwneud â dibynadwyedd y fflyd o ran prydlondeb a chanslo a chydnabuwyd yr angen i gryfhau gwydnwch sefydliadol wrth i gyfnodau o dywydd eithafol ddod yn fwy cyffredin. Er yn cydnabod cynnydd mewn rhai meysydd, cytunodd y Bwrdd fod angen rhagor o waith i wella gwydnwch gweithredol ac i sicrhau bod lefelau gwasanaeth yn parhau'n ddibynadwy yn y dyfodol yn wyneb amodau cynyddol anodd. **Cam Gweithredu: Datblygu trefniadau gwell i adrodd ar berfformiad a naratif ategol sy'n dangos tueddiadau tymor hir, effeithiau'r tywydd a chynllunio gwydnwch i'r Bwrdd eu hystyried yn y dyfodol.**

8. Diogelwch

Bu'r Bwrdd yn ystyried perfformiad diogelwch, gan gynnwys ymosodiadau diweddar ar gydweithwyr, ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r camau sy'n cael eu cymryd i amddiffyn staff a chwsmeriaid yn well. Pwysleisiodd aelodau bwysigrwydd mabwysiadu agwedd gadarn o ran erlyn os oes tystiolaeth sy'n dangos y gellir cymryd camau cyfreithiol a chytunwyd y byddai canlyniadau gweladwy i droseddwyr yn helpu i gryfhau ymrwymiad y sefydliad i ddiogelwch cydweithwyr. Bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried heriau ymddygiadol ehangach ar draws y rhwydwaith, gan gynnwys osgoi talu am docynnau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar lwybrau penodol, a nodwyd cynnydd o ran gweithredu Hysbysiadau Ymddygiad ar y Rheilffordd a mesurau ataliol eraill. Croesawodd yr aelodau'r ymgysylltiad rhagweithiol â phartneriaid allanol, gan gynnwys BTP, i ddatblygu ymyriadau mwy tymor hir sy'n rhoi sylw i'r achosion sylfaenol yn hytrach na dibynnu'n gyfan gwbl ar weithgarwch gorfodi.

8.1 Talerddig

Bu'r Bwrdd yn trafod cynnydd yn erbyn argymhellion RAIB a ddeilliodd o'r ymchwiliad i wrthdrawiad Talerddig. Croesawodd yr aelodau'r rhaglen waith strwythuredig a'r trefniadau llywodraethu sy'n awr ar waith ond pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal y momentwm, gwneud y cynnydd ar gyflawni'n fwy amlwg a sicrhau bod tystiolaeth ar gael lle mae gweithredoedd yn ddibynnol ar sefydliadau allanol. Gofynnodd y Bwrdd am adrodd mwy ystyrlon sy'n rhoi pwyslais ar leihau risgiau, tystiolaeth bod gwaith wedi'i gwblhau a dysgu sefydliadol yn hytrach na chydymffurfiaeth â phrosesau. **Cam Gweithredu LV: Rhoi sicrwydd ar gymhwysedd gyrwyr ac ystyriaethau ymddygiadol sy'n deillio o gyflwyno cerbydau a systemau gweithredol newydd.**

[redacted]

10. Diweddariad Masnachol

Bu'r Bwrdd yn adolygu perfformiad masnachol, a nodwyd fod y twf refeniw o flwyddyn i flwyddyn yn parhau, wedi'i helpu gan welliannau i'r amserlenni, gweithgarwch marchnata, ehangu PAYG a mentrau rheoli refeniw. Croesawodd yr aelodau effaith bositif y newidiadau i amserlen Gogledd Cymru, sydd wedi hybu twf mewn cwsmeriaid a refeniw, ac ystyriwyd cyfleoedd i wneud y gorau ar enillion o gyfleoedd ar gyfer siwrneiau newydd a chysylltedd gwell. Rhoddwyd sylw penodol berfformiad gwannach ar lwybr y Gororau, lle mae rhagor o ymyriadau'n cael eu datblygu i sbarduno galw ac i roi sylw i'r dirywiad yn y tueddiadau refeniw. [redacted] Cytunodd yr aelodau y byddai parhau i roi pwyslais cryf ar dwf mewn refeniw, profiad y cwsmer a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata'n parhau'n allweddol wrth i'r sefydliad weithio i gyflawni nodau masnachol uchelgeisiol.

9.1 Diweddariad ar Refeniw Traws Cymru

Nododd y Bwrdd y Diweddariad ar Refeniw Traws Cymru

10. Diweddariad ar Farchnata

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar y gweithgarwch marchnata cyfredol a nodwyd fod perfformiad yn cyd-fynd fwy neu lai â'r disgwyliadau. Croesawodd yr aelodau gyflwyno dulliau priodoli refeniw gwell, sy'n galluogi dealltwriaeth well o effeithiolrwydd marchnata ac enillion ar fuddsoddiadau. Bu'r Bwrdd yn trafod sawl ymgyrch sy'n weithredol ar hyn o bryd, gan gynnwys gweithgarwch sy'n hybu twf y rhwydwaith, newid dulliau teithio, ehangu PAYG a marchnata cyrchfannau. Nodwyd cynnydd positif mewn mesurau ystyriaeth i gwsmeriaid a pherfformiad y brand, gydag aelodau am weld y defnydd o fewnwelediad cwsmeriaid, dadansoddiadau ymddygiadol a thechnolegau datblygol yn parhau i fanteisio ar effeithiolrwydd ymgyrchoedd yn y dyfodol.

11. Unrhyw Fater Arall

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.